# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2015** |
| Amser: | **Times Not Specified** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/Error! Unknown document property name.**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Catriona Williams, Plant yng Nghymru**<br>**Lynne Hill, Plant yng Nghymru**<br>**Ed Janes, Plant yng Nghymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Sesiwn Dystiolaeth - P-04-597 Diogelu dyfodol Draig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru

Atebodd y tystion a ganlyn gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Catriona Williams OBE – Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru
- Lynne Hill – Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru
- Ed Janes – Swyddog Datblygu (Cyfranogiad), Plant yng Nghymru

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-04-612 Dŵr Potel Gwladol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil ymateb y Gweinidog.

### 3.2 P-04-614 Cefnogi Gwasanaeth Dosbarth Cyntaf Arriva Trains Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y deisebydd yn gofyn am sylwadau ar lythyr y Gweinidog; a'r
- Gweinidog yn gofyn am eglurder ar y gwahaniaeth ymarferol rhwng y gwasanaeth 'dosbarth cyntaf' a ddarparwyd yn flaenorol a'r gwasanaeth 'ddosbarth busnes' a ddarperir nawr.

### 3.3 P-04-615 Taliad Benthyciad Teg i Fyfyrwyr yn y Flwyddyn Olaf o Hyfforddiant

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog ymateb i'r materion manwl a godwyd gan y deisebydd, ac yn enwedig a yw'n barod i ymestyn diffiniad y tymor i gynnwys gwyliau'r haf os bydd myfyrwyr yn dal i astudio.

### 3.4 P-04-616 Rhaid Atal Gwerthu Tân Gwyllt i'r Cyhoedd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog, yn cynnwys y cyngor cyfreithiol yr oedd y Pwyllgor wedi ei dderbyn, a gofyn am ei farn.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-04-448 Gwella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu unwaith eto at y deisebydd yn gofyn am ei barn am y llythyr gan y Bwrdd Iechyd.

Ar bwynt ehangach cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at:

- y Gweinidog yn amlinellu faint o amser y mae wedi ei gymryd (ac yn ei gymryd) i gael atebion gan fyrddau iechyd a gofyn pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i wella'r sefyllfa; a'r
- Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i weld a oes ganddynt unrhyw bryderon.

**4.2P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.**

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 4.4.

**4.3P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-x ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn**

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 4.4.

**4.4P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-x i Ysbyty Coffa Ffestiniog**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau ar y cyfleusterau iechyd newydd ar gyfer Blaenau Ffestiniog a'r cynnydd gan y byrddau iechyd wrth ymateb i'r adroddiad ar yr astudiaeth o ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru.

**4.5P-04-570 Argaeledd Anghyfartal o Ran Triniaethau Nad Ydynt Wedi'u Harfarnu'n Genedlaethol Gan GIG Cymru**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog amlinellu'r amserlenni ar gyfer datblygu polisïau comisiynu dros dro, i alluogi mynediad i feddyginiaethau arbenigol ac uwch-arbenigol tra bod prosesau newydd yn cael eu datblygu.

**4.6P-04-604 Diddymu Grwpiau Cyfeirio Cleifion â Diabetes a chanslo cyfarfodydd y Grŵp Cynllunio a Chyflawni Gwasanaethau Diabetig ym Mhowys.**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb, a chytunodd i gau'r ddeiseb wedi i'r Gweinidog gadarnhau bod y Grŵp Cynllunio a Chyflawni ar gyfer Diabetes bellach wedi ei ailsefydlu.

**4.7P-04-602 Personoleiddio Beddau**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebwyr unwaith eto yn gofyn am eu sylwadau; a
- chynnig i gau'r ddeiseb o gofio ei bod yn ymddangos fod cyfran fawr ohoni wedi'i chyflawni.

**4.8P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog ymateb i sylwadau pellach y deisebydd, yn enwedig y tri chais ar dudalen olaf ei ymateb; ac
- ystyried yng ngoleuni'r ymateb hwnnw i gymryd tystiolaeth lafar gan y Deisebydd a'r Gweinidog.

**4.9P-04-581 Gwrthwynebu'r Toriadau yn y Ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb, a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog am ei sylwadau ar ymateb y deisebwyr, yn enwedig a ddylai blaenoriaeth ddigonol gael ei roi i ddysgwyr Saesneg fel iaith ychwanegol yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe.

**4.10 P-04-537 Plannu Coed i Leihau Llifogydd**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau'r deisebydd.

**4.11 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- gasglu holl ystyriaethau'r Pwyllgor ar y mater at ei gilydd a'i adrodd i'r Cynulliad; a
- gwneud penderfyniad ynghylch cau'r ddeiseb.

**4.12 P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb defnyddiol, a gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau; ac
- Ailgysylltu gyda'r deisebydd neu barti arall fyddai â diddordeb i weithredu ar eu rhan, o gofyn eu barn ar yr ohebiaeth ddiweddar.

### 4.13 P-04-475 Yn eisiau – Bysiau i Feirionnydd

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 4.15.

### 4.14 P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 4.15.

### 4.15 P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Clerc a'r Gwasanaeth Ymchwil i baratoi adroddiad drafft o ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater hwn; a
- gofyn i'r deisebwyr a'r tystion a roddodd dystiolaeth ar yr ymchwiliad i rannu eu safbwyntiau ar ohebiaeth ddiweddaraf y Gweinidog, a fydd hefyd yn rhan o'r adroddiad drafft.

### 4.16 P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb, a chytunodd i nodi'r sefyllfa ac aros am ganlyniadau'r adolygiad cyfyngiadau cyflymder.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Blaenraglen waith

Trafododd yr Aelodau flaenraglen waith y Pwyllgor.